# Heol y Pentir a Cilfach y Mor
# Y Rhws

Nod y polisi Rhaeadru yw sicrhau bod datblygiad newydd Cymdeithas Tai Wales & West yn Heol y Pentir a Cilfach y Mor, Y Rhws yn gynaliadwy, yn dod yn rhan o'r gymuned leol, ac yn cynorthwyo'r rhai sydd â'r angen mwyaf am dai. I wireddu'r nod hwn, mae'r trefniadau ar gyfer Heol y Pentir a Cilfach y Mor wedi'u datblygu a'u cytuno mewn partneriaeth â Chyngor Bro Morgannwg a Chymdeithas Tai Wales & West.

**Cysylltiad Lleol**

*Cysylltiad lleol yn unol â Pholisi Dyraniadau Homes4U.*

Man Preswylio

Wedi preswylio yn yr ardal flaenoriaeth am y 3 o'r 5 mlynedd diwethaf, neu 6 mis o'r 12 mis diwethaf.

Meini Prawf Teulu

Cysylltiadau teuluol agos yn yr ardal flaenoriaeth, h.y. rhieni a brodyr a chwiorydd neu gyfwerth ac mae'r ymgeisydd mewn cysylltiad agos rheolaidd â'r aelod hwnnw o'i deulu. **Nid yw plant o dan 18 oed yn cael eu hystyried yn gysylltiad lleol.**

Cyflogaeth Barhaol

Cyflogaeth barhaol llawn amser â thâl yn yr ardal flaenoriaeth.

Wedi ymddeol o lety clwm.

Dylai ymgeiswyr am Dai Gosod fodloni prif egwyddorion y polisi uchod a chael eu blaenoriaethu yn unol â'r meini prawf canlynol:

Mae'r blaenoriaethau sydd wedi'u cytuno ar gyfer y datblygiad fel a ganlyn:

Rhoose Ward

**Blaenoriaeth 1**
Bydd blaenoriaeth yn cael ei rhoi i ymgeiswyr sydd ym mand Aur neu Aur Ychwanegol Homes4U gyda chysylltiad lleol â'r ardal y Rhoose Ward.

**Blaenoriaeth 2**
Os nad oes digon o ymgeiswyr o fewn Blaenoriaeth 1, yna rhoddir blaenoriaeth i'r ymgeiswyr hynny sydd yn y band Aur neu Aur Ychwanegol, ac sydd â chysylltiad â gweddill Bro Morgannwg.

**Blaenoriaeth 3**
Os nad oes digon o ymgeiswyr o fewn Blaenoriaethau 1 a 2, rhoddir blaenoriaeth i'r ymgeiswyr hynny ym mand Arian neu Arian Ychwanegol Homes4U gyda chysylltiad lleol â'r ardal y Rhoose Ward.

**Blaenoriaeth 4**
Os nad oes digon o ymgeiswyr o fewn Blaenoriaethau 1-3, yna rhoddir blaenoriaeth i'r ymgeiswyr hynny sydd yn y band Arian neu Arian Ychwanegol sydd â chysylltiad â gweddill Bro Morgannwg.

**Blaenoriaeth 5**
Os nad oes digon o ymgeiswyr o fewn Blaenoriaethau 1-4, rhoddir blaenoriaeth i'r ymgeiswyr hynny ym mand Efydd Homes4U sydd â chysylltiad lleol â'r ardal y Rhoose Ward

**Blaenoriaeth 6**
Os nad oes digon o ymgeiswyr o fewn Blaenoriaethau 1-5, yna rhoddir blaenoriaeth i'r ymgeiswyr hynny sydd yn y band Efydd sydd â chysylltiad â gweddill Bro Morgannwg.

Mae ymgeiswyr â blaenoriaeth feddygol yn cael blaenoriaeth lle mae eiddo wedi'i addasu â blaenoriaeth feddygol ar gael, waeth beth fo'r cysylltiad lleol.

**Rheoli Tai ar gyfer Eiddo Gosod Newydd**

Ar gyfer pob ymgeisydd gaiff eiddo yn Heol y Pentir a Cilfach y Mor, bydd Swyddogion Tai Cymdeithas Tai Wales & West yn:

- Cynnal cyfweliadau dilysu neu ymweliadau cartref
- Sicrhau geirdaon ar gyfer tenantiaethau.